



# Nodyn esboniadol papurau enwebu

## ETHOLIAD BWRDD YMDDIRIEDOLWYR CGGC 2021

Eleni mae **saith** lle gwag ar y Bwrdd.

Gall aelodau CGGC enwebu hyd at *ddau* o bobl. Gall enwebeion fod o unrhyw fudiad, nid oes raid iddynt fod yn aelodau o CGGC.

Cofiwch sicrhau eich bod yn cael caniatâd yr enwebai/eion a chytundeb eilydd (sy'n cefnogi'r enwebiad ar ran ei fudiad) cyn cyflwyno eich ffurflen enwebu. Ni all yr eilydd a'r cynigydd fod yn yr un mudiad partner CGGC.

Gofynnir i bob enwebai gyflwyno ei CV, datganiad personol sy'n dangos sut byddai ei sgiliau a'i brofiad, yn ei dyb ef, yn ei alluogi i gyflawni rôl Ymddiriedolwr a datganiad byr (200 gair ar y mwyaf) sy'n ateb y cwestiwn - Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio o blaid fy ngwneud i yn Ymddiriedolwr? Bydd y datganiad yn ymddangos ar wefan CGGC yn ystod yr etholiad/proses bleidleisio. Gofynnir i enwebeion gyflwyno eu gwybodaeth, llenwi ffurflen gais ymddiriedolwr sy'n dangos bod ganddynt y sgiliau penodol i gyflawni rôl ymddiriedolwr CGGC a chyflwyno eu CV i CGGC yn uniongyrchol, naill ai drwy e-bost neu'r post.

Os na fydd enwebai'n cyflwyno'r wybodaeth ofynnol, y ffurflen gais a'r CV, ni fydd yr enwebiad yn mynd dim pellach.

Os ceir mwy na saith enwebai, bydd pleidlais yn cael ei chynnal ymysg aelodau. Bydd y datganiad byr yn ymddangos ar wefan CGGC ac yn ffurfio rhan o waith papur y bleidlais a roddir i'n haelodau, os bydd angen pleidleisio.

Fel arfer, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu penodi am dair blynedd a gallant wasanaethu am hyd at naw mlynedd.

Mae CGGC yn ymrwymedig i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydym eisiau ffurfio Bwrdd Ymddiriedolwyr cryf, amrywiol a chynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Gall amrywiaeth gwmpasu amrywiaeth eang o nodweddion gwarchoddedig, ond mae gennym ddiddordeb arbennig mewn derbyn enwebiadau gan bobl iau, pobl ag anabledd, pobl drawsryweddol, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a'r rheini o'r gymuned LGBT+. Ond rydym yn croesawu enwebiadau gan unigolion o bob lliw a llun.

Mae CGGC yn awyddus i aelodau gymryd rhan weithredol yn ei waith ac fe'ch anogir i gymryd rhan lawn yn yr etholiad hwn.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau a CV, datganiad personol a chrynodeb yr enwebeion yw 5 pm ddydd Gwener 10 Medi 2021.**

<b>Post</b>	Tracey Lewis, CGGC, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH
<b>Ebost</b>	<a href="mailto:tlewis@wcva.cymru">tlewis@wcva.cymru</a>